11. CÂN CARIADLON
(Pasg)

Roedd Cariadlon yr Ehedydd a Clebryn y Llygoden yn byw mewn coedwig gerllaw llecyn agored. Y brenin a'r frenhines oedd yn berchen ar y goedwig. Yn gynnar y nos byddai Cariadlon yn hedfan i frig y coed i ganu hyd doriad gwawr, tra byddai Clebryn yn gwledda ar friwsion yn ystafell fwyta'r palas. Pan ddeuai'r brenin a'r frenhines i lawr am frecwast, byddai'n cuddio tu ôl i'r llenni ac yn gwrando ar eu sgwrs – yna byddai ganddi ddigon o straeon diddorol i'w rhannu â'r anifeiliaid eraill wedi dychwelyd i'r goedwig. Er enghraifft, efallai y dywedai wrthynt fod y brenin wedi cael prwns i frecwast, neu am gynlluniau'r frenhines i ailaddurno'r llofftydd brenhinol. Roedd y cyfan yn ddigon diflas a dweud y gwir . . . ond un dydd daeth y llygoden â newydd syfrdanol iddynt.

'Paciwch eich bagiau, gyfeillion!' gwichiodd. 'Mae'r brenin a'r frenhines am dorri'r goedwig frenhinol i lawr.'

'Dwi ddim yn dy gredu di!' ebychodd Cariadlon.

'Mae'n hollol wir,' sicrhaodd Clebryn hi. 'Mae'r brenin eisiau arian, ac felly am werthu'r coed brenhinol.'

'Ond does bosib . . . does bosib na allai gael gafael ar arian rhyw ffordd arall,' llefodd Cariadlon.

‘Fe allai . . . ond wnaiff o ddim,’ gwichiodd y llygoden. ‘Hen deyrn barus ydi o, a dyw ei wraig fawr gwell.’

‘Bw! Bw! Lawr â’r frenhiniaeth!’ Erbyn i weddill creaduriaid y goedwig gael clywed y newydd roedd pawb yn gandryll ac yn benderfynol o geisio cyfle i dalu’r pwyth yn ôl i’r brenin a’r frenhines.

‘Yfory dwi am ymosod ar y libart ieir brenhinol,’ addunedodd y Llwynog.

‘Dwi am gnoi’r rhosod brenhinol,’ addunedodd y Gwningen.

‘Dwi am greu mynydd o bridd yng nghanol y lawnt frenhinol,’ addunedodd y Twrch.

Ac felly y bu, gyda phob creadur yn addunedu i ddial mewn rhyw fodd. Erbyn diwedd y dydd Cariadlon oedd yr unig un oedd heb siarad. Yn sydyn, canfu fod yr holl anifeiliaid yn edrych arni hi. ‘Beth wyt ti am ei wneud, Cariadlon?’ Roedd pawb eisiau gwybod.

Roedd Cariadlon wedi cael cymaint o sioc, ni allai feddwl heb sôn am siarad.

‘Dyma syniad,’ meddai Clebryn. ‘Heno, pan fyddi di’n canu ar frig y coed, gofynna am i fellten daro’r palas brenhinol.’

‘Hwrê! Syniad da, Clebryn!’ bloeddiodd yr holl anifeiliaid.

Y noson honno, fel arfer, hedfanodd Cariadlon i frig y coed. Fel arfer, canodd i’r lloer a’r sêr. Ond ni ofynnodd am fellt i daro’r palas brenhinol. Yn hytrach, wrth iddi wawrio, gorffennodd â’i chân arferol, oedd mewn gwirionedd yn weddi.

‘Bendithia’r brenin, bendithia’r frenhines,
Bendithia’r Marchogion a’r pentrefwyr,
Bendithia holl greaduriaid y goedwig
O’r moch daear mawr hyd y gwenyn bach.’

Doedd yr anifeiliaid ddim yn hoffi hyn.

‘Ein gelynion yw’r brenin a’r frenhines,’ dwrdiodd y Llwynog. ‘Rhag cywilydd i ti’n eu bendithio hwy! O hyn ymlaen rhaid i ti weddïo ar i fellt daro’r palas brenhinol, neu fe wnawn ni dy erlid o’r goedwig.’

Wel, y prynhawn hwnnw, fe aeth pethau o ddrwg i waeth. Cafodd Twrch ei daro ar ei ben gan bêl groce. Cafodd Cwningen ei saethu gan arddwr gwyllt. Cafodd Llwynog ei erlid o’r libart ieir brenhinol gan yr helgwn brenhinol. Ac yna, i roi halen ar y briw, cyrhaeddodd

tîm o dorwyr coed gan fynd ati i weithio heb oedi.

Wrth hedfan i frig y coed y noswaith honno roedd Cariadlon bron â thorri ei chalon. O'i chlwyd ar y brigyn uchaf gallai weld y bwlch hyll ar gwr y goedwig lle bwriwyd y coed cyntaf i'r llawr. Gallai weld y creaduriaid druain oedd wedi colli eu cartrefi. Gallai weld yn glir y palas brenhinol lle roedd y brenin a'r frenhines wrthi'n swpera.

'Gormeswyr barus!' meddai Cariadlon wrthi ei hunan. 'Mae'r hyn a ddywed Clebryn yn wir. Pam ddylwn i eu bendithio hwy?'

Yr oedd hi ar fin gweddïo am fellt i daro'r palas pan glywodd rywun neu rywbeth yn galw arni.

Edrychodd i fyny, mewn ofn.

Yr oedd y lleuad yn disgleirio arni. 'Edrych eto, Cariadlon,' sibrydodd. 'Edrych draw i'r llecyn agored – a chofia fod cariad yn gryfach na chasineb.'

Unwaith eto edrychodd yr ehedydd i lawr o frig y goedwig. A'r tro hwn gwelodd rywbeth nad oedd wedi sylwi arno'n gynharach. Gwelodd goeden siâp croes yn sefyll ar ei phen ei hunan ar gwr y llecyn agored rhwng y goedwig a'r palas.

'Dyna siâp cariad,' sibrydodd y lleuad.

Rywfodd, wrth i Cariadlon syllu ar ffurf cariad, dechreuodd cân o gariad ffurfio yn ei gwddf. Bu'n rhaid iddi fod yn ddewr iawn i'w chanu, ond fe wnaeth hynny'n fwy swynol nag erioed o'r blaen – nid unwaith yn unig ond drosodd a throsodd trwy'r holl oriau tywyll hyd doriad gwawr:

'Bendithia'r brenin, bendithia'r frenhines,
Bendithia'r Marchogion a'r pentrefwyr,
Bendithia holl greaduriaid y goedwig
O'r moch daear mawr hyd y gwenyn bach.'

Os oedd creaduriaid y goedwig yn flin y tro cyntaf iddynt glywed Cariadlon yn bendithio'r brenin a'r frenhines, roeddent yn gandryll nawr. 'Glywsoch chi hynna?' chwyrnai a bytheiriai pawb wrth iddynt ymgynnull yn y llecyn agored y bore canlynol.

'Bydd rhaid cael gwared o'r bradwr ar unwaith!' rhuodd Llwynog. 'Os myn hi fendithio gormeswyr yna gwell iddi fyw mewn cawell yn y palas.'

Yn y cyfamser roedd y brenin a'r frenhines yn cael brecwast yn yr ystafell fwyta frenhinol. 'F'anwylyd,' meddai'r frenhines wrth iddi wasgaru siwgr ar yr uwd brenhinol. 'Dwi wedi bod yn meddwl. Byddai'n well gen i pe na bait ti'n torri'r goedwig frenhinol. Yn hytrach, cei werthu'r emralltau brenhinol.'

Gollyngodd y brenin ei lwy. 'Wyt ti o ddifri'n gofyn i mi werthu'r tlysau brenhinol er mwyn arbed y goedwig?'

Yn feddylgar, amneidiodd y frenhines ei phen. 'Rhywbeth ddigwyddodd neithiwr a wnaeth i mi newid fy meddwl. Roedd rhyw aderyn – ehedydd dwi'n credu – yn canu yn y goedwig. Chlywais i erioed ganu mor hyfryd. Ac yn sydyn fe'm trawodd – os caiff y goedwig ei thorri yna bydd rhaid i'r aderyn adael hefyd. A chawn i byth glywed y gân yna eto . . . '

'Os felly,' meddai'r brenin a gwên lydan ar ei wyneb, 'mae'r goedwig yn ddiogel.' Roedd ar fin cusanu'i wraig ar ei boch pan sgrechiodd hithau! (Fedrwch chi ddyfalu pam?)

Wnaeth y llygoden ddim aros i ddweud 'helô'! 'Mae'r goedwig yn ddiogel . . . Mae'r goedwig yn ddiogel . . . '

Saethodd allan o'r ystafell fwyta frenhinol ac yn ôl i'r goedwig. O fewn munudau roedd yn rhannu'r newydd gwych.

Ac felly, pan hedfanodd Cariadlon i lawr o frig y coed, nid haid o greaduriaid milain anghynnes â'u bryd ar ei herlid o'r goedwig oedd yn ei disgwyl ond tyrfa lawen ei chymeradwyaeth gyda phob creadur yn erfyn arni i aros – a gwnaeth hyn iddi deimlo mor hapus nes iddi hedfan ar ei hunion am y goeden siâp croes a dechrau canu unwaith eto.

'Casineb – drwg. Cariad – da. Mae cân Cariadlon wedi arbed y goedwig.'

NB: Gellir defnyddio'r stori hon wrth sôn am bwysigrwydd gofalu am yr amgylchfyd neu fel enghraifft o rym gweddi.

HYD: 6–7 munud

NEGES: Ystyr y groes

DARLLEN: Luc 23: 32–43